

RHIAN CADWALADR



Enw: Rhian Cadwaladr

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Llanberis

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol Dolbadarn, Llanberis ac Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Hoffi popeth heblaw gwersi mathamateg.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Awdur.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Yr un cynta dwi'n gofio ydi llyfr o Hwiangerddi, mae o gen i o hyd.

Beth yw eich diddordebau? Coginio a thynnu lluniau.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Mynd am dro efo fy nghamera neu cael teulu/frindiau draw am fwyd.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobol sy'n gadael bagiau baw ci ar ochr llwybrau.

Pryd ddechreuoch chi feddl am ysgrifennu? Pan oeddwn i tua unarddeg oed.


O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Does gen i ddim clem! Mae nhw jesd yn dod o rhywle.



Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Fedrai ddim meddwl am ddim byd penodol.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Rhwng cloriau llyfr fe gewch chi gyfle i ddianc i fydoedd newydd ac i ddeall mwy am eich byd eich hun. Darllenwch unrhyw beth a phopeth – ond peidwch a disgwyl mwynhau bob dim! Os ydi un llyfr ddim yn apelio, chwiliwch am un sydd – mae yna gant a mil i ddewis ohonyn nhw! Ac yna – jesd sgwennwch!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Y peth gorau ydi'r profiad cyffrous pan fo'r syniadau 'ma yn jesd popio i'ch pen chi a'r peth gwaetha ydi pan nad oes syniad yn dod.



Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? Heidi

Hoff gymeriad o lyfr? Jane Eyre

Hoff le? Eryri

Hoff fwyd? Cinio 'Dolig

Hoff ffilm/rhaglen deledu?
Call The Midwife

Hoff air? Plu

Superpower o ddewis?
Y gallu i iachau pobol

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Facebook

Beth sy'n gwneud i chi wenu?
Lot o betha, dwi'n licio meddwl mod i'n gwenu'n hawdd

Swydd tase chi dim yn awdur?
Swydd ddelfrydol? Actor

Top tip i ddarpar awduron Darllenwch wahanol fathau o lyfrau a sgwennwch!